# Crynodeb o Fil

## Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru)

Mehefin 2012

Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn: **www.cynulliadcymru.org/research**

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:


**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

E-bost: **Research.Service@wales.gov.uk**
Twitter: **@YmchwilCCC**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.



**Rhif ymholiad:** 12/1563

# Crynodeb o Fil
# Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru)

## Mehefin 2012

Philippa Watkins, Jonathan Baxter,
Hannah Johnson a Alys Thomas

Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

National Assembly for Wales

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad** ........ **1**

**2. Y ddeddfwriaeth bresennol** ........ **1**

**3. Cefndir** ........ **2**

3.1. Y cyd-destun polisi ........ 2
3.2. Yr Asiantaeth Safonau Bwyd ........ 3
3.3. Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd ........ 3
3.4. Gorfodaeth i arddangos sgoriau ........ 4
3.5. Cymryd rhan yng nghynllun yr ASB ........ 5

**4. Y Bil** ........ **6**

4.1. Cymalau ........ 6
4.2. Amserlen ........ 10

**5. Ymateb i'r Bil** ........ **10**

# Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru)

## 1. Cyflwyniad

**Dyddiad cyflwyno:** 28 Mai 2012.

**Aelod yn gyfrifol:** Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Y Pwyllgor Cynulliad sy'n cynnal gwaith craffu ar y Bil yn ystod Cyfnod 1:** y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, sydd wedi lansio ymgynghoriad ar y Bil. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 29 Mehefin 2012.[1]

**Dyddiad cau cyflwyno adroddiad Cyfnod 1:** 16 Hydref 2012[2]

Bydd ***Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru)*** yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau bwyd yng Nghymru arddangos gwybodaeth am eu safonau hylendid (eu sgôr hylendid) mewn safle sy'n hawdd i gwsmeriaid ei weld.

Cyflwynwyd cynllun gwirfoddol ym mis Hydref 2010. Mae'n rhoi sgôr o rhwng 0 (angen gwneud gwelliannau brys) a 5 (da iawn) yn seiliedig ar eu cydymffurfiaeth â gofynion cyfraith bwyd. Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau bwyd arddangos eu sgôr hylendid bwyd ac i awdurdodau lleol orfodi'r cynllun gorfodol yn eu hardal a sicrhau bod y sgoriau yn cael eu harddangos yn gywir.[3]

## 2. Y ddeddfwriaeth bresennol

Mae *Bil Sgorio Hylnedid Bwyd (Cymru)* yn dod o fewn Atodlen 7, Rhan 1 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Mae paragraff 8 ('Bwyd') yn rhoi cymhwysedd deddfwriaethol o ran bwyd a chynnyrch bwyd, diogelwch bwyd a gwarchod buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd.

Y ddeddfwriaeth bresennol yng Nghymru o ran hylendid bwyd yw:

***Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006***[4] ('y Rheoliadau') fel y'u diwygiwyd yw'r prif ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu hlynedid bwyd yng Nghymru, sy'n rhoi effaith i ddarpariaethau rheoliadau hylendid bwyd yr UE, y rhai mwyaf perthnasol ohonynt yw:

- Rheoliad (EC) 852/2004 ar hylendid bwydydd;

---

[1] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Un o Bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol yn agor ymgynghoriad ar Fil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru), datganiad i'r wasg, 29 Mai 2012 [fel ar 30 Mai 2012]

[2] Y Pwyllgor Busnes, Adroddiad ar yr amserlen ar gyfer ystyried Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) [fel ar 30 Mai 2012]

[3] Llywodraeth Cymru, tudalennau deddfwriaeth, Bil Sgorio Hylnedid Bwyd (Cymru) [fel ar 30 Mai 2012]

[4] ***Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006***, SI 2006/31 (W.5) [fel ar 16 Mai 2012]

- Rheoliad (EC) 853/2004 ar y rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n tarddu o anifail;
- Rheoliad (EC) 854/2004 ar y rheolau penodol ar gyfer y trefniadau swyddogol i reoli cynnyrch sy'n tarddu o anifail sydd wedi'i fwriadu i gael ei fwyta gan bobl.

## 3. Cefndir

### *3.1. Y cyd-destun polisi*

Gwelodd mis Medi 2005 yr achos mwyaf erioed o *E. coli* O157 yng Nghymru, a'r ail fwyaf yn y DU. Cafwyd mwy na 150 o achosion, yr oedd y rhan fwyaf ohonynt yn blant. Cafodd 31 o bobl eu derbyn i'r ysbyty, a bu farw un plentyn pum mlwydd oed, Mason Jones.

Yn dilyn yr achosion, comisiynodd Prif Weinidog Cymru ymchwiliad cyhoeddus o dan arweiniad yr Athro Pennington, a gyflwynodd ei adroddiad ar 19 Mawrth 2009 a gwnaeth 24 o argymhellion.[5]

Ym mis Mehefin 2010, siaradodd yr Athro Pennington gerbron Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a oedd yn adolygu'r ffordd yr oedd ei adroddiad yn cael ei roi ar waith. Awgrymodd na fyddai cynllun sgorio hylendid bwyd yn ffordd ddrud o ysgogi gwelliannau mewn diogelwch bwyd:

> **Lorraine Barrett:** Could any actions be taken to improve food hygiene services and to make them more effective that do not require any additional funding? Is it more or less a case of more funding being needed or are there basic things—or anything—that could be done without extra funding?
>
> **Professor Pennington:** That is a difficult question to give a simple answer to. There has been a lot of discussion about scores on the doors, for example, as a public manifestation to the consumer that someone is running a safe business. There must be a funding implication in rolling that out, but not a large one, because it is based on what is already happening. It is basically a question of bringing together information that is already gathered and then putting it out into the public domain. That sort of initiative has the power behind it to significantly improve food safety in terms of businesses such as restaurants and so on and shops selling food, because the public can see what it is getting. That is still in development, but the sooner we get on with it the better. We need a really good, solid system that the public understands and that does not just depend on someone going on the web. That information would be visible when you went into a shop, and that would not be an expensive way of driving quite significant improvements in food safety.[6]

Yn ei ddatganiad deddfwriaethol ym mis Gorffennaf 2011, dywedodd y Prif Weinidog y byddai'n cyflwyno deddfwriaeth a fyddai'n gwneud trefniadau gorfodol

---

[5] Llywodraeth Cymru, tudalennau'r ymchwiliad E.Coli [fel ar 30 Mai 2012]
[6] Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol, Cofnod y Trafodion, 10 Mehefin 2010 [fel ar 30 Mai 2012]

ar gyfer mesur iechyd y cyhoedd sy'n syml er mwyn rhoi gwybodaeth hawdd ei chael a'i deall i ddefnyddwyr ar safonau hylendid busnesau bwyd fel y gallant wneud dewisiadau gwell o ran lle y maent yn dymuno bwyta neu brynu bwyd.[7]

Cafodd ***Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) drafft*** ei lansio ar 14 Medi a chyhoeddwyd ymgynghoriad arno. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 7 Mawrth 2012.[8]

## *3.2. Yr Asiantaeth Safonau Bwyd*

Sefydlwyd **yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB)** yn 2000, ac mae'n Adran o Lywodraeth y DU heb Weinidog y mae ei swyddogaethau yn cynnwys cynghori Gweinidogion a chyrff cyhoeddus eraill ym mhob un o weinyddiaethau'r DU am faterion mewn perthynas â bwyd.

Mae gwahaniaethau yng nghylch gwaith yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng ngwledydd y DU. Yng Nghymru, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am faetheg a materion yn ymwneud â bwyta'n iach i'r Adran Iechyd, ond mae'r cyfrifoldeb am labelu bwyd a chyfansoddiad bwyd yn gyffredinol yn parhau gyda'r Asiantaeth Safonau Bwyd.[9]

Mae gwaith penodol yr ASB yng Nghymru yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Pennwyd cyllideb o £3.242 miliwn ar gyfer yr ASB yng Nghymru ar gyfer 2011-2012.

## *3.3. Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd*

Yn 2008, cynhaliodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ymgynhgoriad ar y cynigion i sefydlu cynllun **sgorio y DU gyfan** ar safonau hylendid mewn busnesau bwyd. Amcan yr ymgynghoriad oedd ceisio sylwadau ar y cynigion i sefydlu cynllun y DU gyfan i roi gwybodaeth i ddefnyddwyr. Yn dilyn yr ymgynghoriad, ail-enwyd y cynllun yn **'Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd'.**

Mae'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd ('cynllun yr ASB') yn helpu defnyddwyr i ddewis ble i fwyta allan neu siopa am fwyd drwy roi iddynt wybodaeth am safonau hylendid mewn bwytai, bwytai prydau parod, gwestai, tafarndai a siopau bwyd. Rhoddir sogriau hefyd i ysgolion, ysbytai a chartrefi gofal preswyl. Lansiwyd cynllun yr ASB **yng Nghymru** ym **mis Hydref 2010**.

Rhoddir 'sgôr hylendid' i bob busnes pan gaiff ei arolygu gan awdurdod diogelwch bwyd perthnasol. Mae'r sgôr hylendid yn dangos i ba raddau y mae'r busnes yn bodloni gofynion y gyfraith hylendid bwyd.

---

[7] **Cofnod y Trafodiono, 12 Gorffennaf 2011 [fel ar 30 Mai 2012]**
[8] **Llywodraeth Cymru, Bil drafft Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru), Ymgynghoriad [fel ar 30 Mai 2012]**
[9] Yr Asiantaeth Safonau Bwyd, ***Adroddiad Cyfarwyddwr Cymru i'r Bwrdd***, Medi 2011 [fel ar 16 Mai 2012]

Caiff sgôr pob busnes ei gyhoeddi ar wefan genedlaethol[10], a rhoddir sticer a thystysgrif i'w harddangos yn yr eiddo. Mae arddangos sgôr hylendid bwyd busnesau bwyd ar eu safleoedd yn **wirfoddol** ar hyn o bryd.

Bydd *Bil Sgorio Hylnedid Bwyd (Cymru)* yn ei gwneud **yn orfodol** arddangos y sgoriau hyn.

Mae swyddog diogelwch bwyd sy'n arolygu busnes yn gwirio i ba raddau y mae'r busnes yn bodloni'r gyfraith drwy bwyso a mesur:

- pa mor hylan y mae bwyd yn cael ei drin a'i drafod – sut y mae'n cael ei baratoi, ei goginio, ei ailgynhesu, ei oeri a'i storio;
- cyflwr strywthur yr adeiladau – glanweithdra, cynllun, goleuni, awyru a chyfleusterau eraill;
- sut y mae'r busnes yn rheoli ac yn cofnodi'r hyn y mae'n ei wneud i sicrhau bod bwyd yn ddiogel.[11]

Ar ddiwedd yr arolygiad, mae busnes yn cael un o'r chwe sgôr. Mae'r sgôr uchaf, sef '5', yn golygu bod safonau hylendid 'da iawn' ar waith yn y busnes. Dylai fod modd i unrhyw fusnes gyrraedd y sgôr uchaf hon.

Gall busnes dderbyn un o'r sgoriau hylendid isod: [12]




Bydd y swyddog diogelwch bwyd yn egluro wrth berchennog neu reolwr y busnes pa welliannau sydd eu hangen a sut y gall gyrraedd y sgôr uchaf o '5'. Bydd yr awdurdod lleol yn sicrhau bod y gwelliannau hyn yn cael eu gweithredu.

## *3.4. Gorfodaeth i arddangos sgoriau*

Cafwyd galwadau i'w gwneud **yn orfodol arddangos sgoriau hylendid yng Nghymru** gan Lais Defnyddwyr Cymru yn ei ail adroddiad ar ddiogelu defnyddwyr rhag E-coli 0157, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2011. Mae'r adroddiad yn datgan:

> **Mae Cymru mewn sefyllfa gref i fod y wlad gyntaf yn y DU i'w gwneud yn orfodol arddangos sgoriau hylendid.** Mae pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru wedi ymrwymo i gymryd rhan yn y cynllun, tra nad yw llawer yn Lloegr a'r Alban wedi gwneud ymrwymiad hyd yma.

---

[10] http://ratings.food.gov.uk/cy-GB
[11] Gwefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd: Dysgu mwy am y sgoriau hylendid bwyd [fel ar 8 Tachwedd 2011]
[12] Ffynhonell y ddelwedd: Gwefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Rydym wedi cael cyngor cyfreithiol sy'n datgan, o ganlyniad i'r refferendwm ar 3 Mawrth, fod gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y pŵer erbyn hyn i newid y gyfraith i'w gwneud yn orfodol arddangos y sgoriau.
Dylai Llywodraeth […] Cymru gyflwyno Deddf Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau bwyd arddangos sgoriau hylendid **ar safleoedd busnes..**[13]

Trafododd yr ASB ei ymateb[14] i adroddiad Llais Defnyddwyr Cymru a'i 18 o argymhellion mewn cyfarfod bwrdd ym mis Medi 2011.

### *3.5. Cymryd rhan yng nghynllun yr ASB*

**Mae pob un o 22 awdurdod lleol Cymru yn cymryd rhan yn wirfoddol yng nghynllun yr ASB** ac, o'r oddeutu 30,000 o fusnesau bwyd yng Nghymru, mae dros 13,500 wedi'u cofrestru hyd yn hyn.

Fodd bynnag, nid yw pob busnes bwyd sydd wedi cael sgôr hylendid ar hyn o bryd yn dangos y sgôr ar eu safleoedd. Dangosodd gwerthusiad a gynhaliwyd ar ran yr ASB fod **busnesau sydd â sgôr isel yn amharod i arddangos eu sgôr**.[15] Mae hyn yn golygu mai'r unig ffordd o ddod o hyd i sgôr busnes yw trwy ymweld â gwefan genedlaethol yr ASB lle y caiff sgoriau busnesau ym mhob awdurdod lleol eu harddangos. Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod dwy broblem ynghlwn â hyn:

(a) Rydym yn gwybod nad yw dros 30% o bobl Cymru yn defnyddio'r rhyngrwyd; a bod y ganran yn 73% ymhlith pobl dros 65 oed. Felly, i bobl nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd, nid yw mynd i wefan yr Asiantaeth i weld sgoriau hylendid yn opsiwn.

(b) Mae llawer o bobl yn mynd allan heb wybod ymlaen llaw ble byddant yn bwyta ond yn hytrach yn penderfynu yn y fan a'r lle. Bryd hynny, weithiau nid oes modd defnyddio'r rhyngrwyd ac felly os nad yw'r sgôr hylendid yn cael ei harddangos yn ei fangre, nid yw'n bosibl i rai defnyddwyr gael yr wybodaeth berthnasol cyn iddynt benderfynu lle i fwyta neu brynu bwyd.[16]

---

[13] Llais Defnyddwyr Cymru, ***Diogelu defnyddwyr rhag E-coli 0157***, Mawrth 2011 [fel ar 8 Tachwedd 2011]
[14] Yr Asiantaeth Safonau Bwyd, ***Ymateb i Ail Adroddiad Blynyddol Llais Defnyddwyr Cymru: Diogelu Defnyddwyr rhag E.coli O157***, Medi 2011 [fel ar 8 Tachwedd 2011]
[15] *Evaluation of Scores on the Doors: Final Main Report for the FSA* (Mawrth 2008) Greenstreet Berman.
[16] Llywodraeth Cymru, ***Dogfen ymgynghori - Cynigion ar gyfer Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru),*** Rhagfyr 2011 [fel ar 15 Mai 2012]

## 4. Y Bil

**Talfyriadau**

ASB – yr Asiantaeth Safonau Bwyd

HCB – hysbysiad cosb benodedig

“sgôr” – y sgôr hylendid bwyd rating

Bydd *Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru)* yn creu cynllun sgorio hylendid bwyd gorfodol i fusnesau bwyd yng Nghymru. Caiff hyn ei seilio’n fras ar gynllun sgorio hylendid bwyd presennol yr Asiantaeth Safonau Bwyd (‘cynllun yr ASB’), sydd wedi’i fabwysiadu’n eang ond sydd, ar hyn o bryd, yn wirfoddol.

Mae Llywdoraeth Cymru yn credu mai gorfodi busnesau bwyd i arddangos sgoriau hylendid bwyd, lle gellir eu gweld yn hawdd gan ddefnyddwyr yw’r ffordd fwyaf effeithiol a syml o sicrhau bod gan ddefnyddwyr fynediad cyfartal at wybodaeth am safonau hylendid bwyd busnesau bwyd yng Nghymru.

### *4.1. Cymalau*

**Cymal 1 – Trosolwg**
Mae'r cymal hwn yn cyflwyno darpariaethau allweddol y Bil. Mae **26 o gymalau** yn y Bil ac mae **1 Atodlen** iddo.

**Cymal 2 – Rhaglen arolygiadau bwyd**
Mae'r cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau bwyd yng Nghymru (awdurdodau lleol ac awdurdodau porthladd) lunio rhaglenni arolygiadau o sefydliadau busnes bwyd yn eu hardaloedd er mwyn asesu safonau hylendid y sefydliadau hynny. Wrth lunio rhaglen arolygiadau, rhaid i'r awdurdod bwyd roi sylw i'r materion a bennir gan yr ASB ac a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru.

**Cymal 3 – Sgoriau hylendid bwyd**
Ar sail yr asesiad a wneir yn ystod arolygiad, mae’n ofynnol i'r awdurdod bwyd lunio sgôr, sydd wedi ei chynhyrchu yn erbyn y meini prawf sgorio a gyhoeddir gan yr ASB.

Rhaid i'r awdurdod bwyd anfon at weithredwr y sefydliad:

(a) hysbysiad ysgrifenedig am y sgôr;

(b) datganiad ysgrifenedig o'r rhesymau dros y sgôr;

(c) sticer sgôr hylendid bwyd (mae ffurf y sticer i’w rhagnodi mewn

rheoliadau); a

(d) unrhyw wybodaeth arall a nodir mewn rheoliadau.
Rhaid anfon yr hysbysiad, y datganiad, y sticer a'r wybodaeth cyn pen 14 o ddiwrnodau ar ôl yr arolygiad gan yr awdurdod bwyd.

Mae'r sgôr yn peidio â bod yn ddilys os yw'r sefydliad busnes bwyd yn cael hysbysiad am sgôr hylendid bwyd newydd, neu pan fo perchenogaeth ar sefydliad busnes bwyd wedi ei throsglwyddo neu fod y sefydliad hwnnw wedi cau.

**Cymal 4 – Y meini prawf sgorio**
Mae'r cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r meini prawf sgorio (a gyhoeddir

gan yr ASB o dan gymal 13(b) gynnwys system i sgorio safonau hylendid sefydliad busnes bwyd.

**Cymal 5 – Yr hawl i apelio**
Mae'r cymal hwn yn darparu'r weithdrefn i weithredwr sefydliad busnes bwyd

ei dilyn i apelio yn erbyn sgôr a roddwyd i'r sefydliad, a'r seiliau y caniateir i apêl o'r fath gael ei gwneud arnynt.

Mae gan y gweithredwr 21 o ddiwrnodau i apelio, o'r dyddiad y derbynnir yr hysbysiad am y sgôr. Rhaid i awdurdod bwyd benderfynu'r apêl (a chaniateir i arolygiad pellach gael ei wneud er mwyn ystyried yr apêl), ac anfon at y gweithredwr hysbysiad am ei benderfyniad.

- Penderfynir ar yr apêl gan swyddog awdurdodedig nad oedd yn gysylltiedig yn y gwaith o asesu'r sgôr hylendid bwyd sy'n destun yr apêl.
- Rhaid penderfynu ar apelau cyn pen 21 o ddiwrnodau ar ôl i'r awdurdod bwyd eu derbyn.

**Cymal 6 –Hysbysu am sgoriau hylendid bwyd a'u cyhoeddi**
Mae'r cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod bwyd hysbysu'r ASB am y sgoriau y mae wedi eu rhoi i sefydliadau busnes bwyd yn ei ardal, ac mae'n nodi terfynau amser erbyn pryd y mae'n rhaid gwneud hyn. Yna, rhaid i'r ASB gyhoeddi'r sgoriau hynny ar ei gwefan.

**Cymal 7 – Y gofyniad i arddangos sticeri sgôr hylendid**
Mae'r cymal hwn yn darparu bod gan weithredwr sefydliad busnes bwyd, pan

fydd wedi cael hysbysiad am ei sgôr gan yr awdurdod bwyd, 21 o ddiwrnodau hyd nes y bydd rhaid iddo arddangos y sticer yn y sefydliad bwyd.

**Cymal 10 – Yr hawl i ateb**
Yn ystod y cyfnod y bydd y sgôr yn ddilys, bydd gweithredwr sefydliad busnes bwyd yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau (yn ysgrifenedig) ar sgôr y sefydliad i'r awdurdod bwyd. Rhaid anfon unrhyw sylwadau a dderbynnir gan yr awdurdod bwyd o dan y cymal hwn ymlaen at yr ASB, a gaiff gyhoeddi'r sylwadau ar ei gwefan ynghyd â sgôr y sefydliad busnes bwyd.

**Cymal 11 – Ailsgoriadau hylendid bwyd**
Caiff gweithredwr sefydliad busnes bwyd ofyn i'r awdurdod bwyd wneud asesiad ail-sgorio er mwyn ystyried a ddylid newid sgôr. Os bodlonir yr amodau a nodir yn y cymal hwn, (gan gynnwys y gofyniad bod y gweithredwr wedi talu costau rhesymol yr ailsgoriad), rhaid i'r awdurdod bwyd wneud arolygiad heb fod yn hwyrach na thri mis ar ôl i'r awdurdod bwyd gael y cais.

Os bydd yr ailsgoriad yn arwain at newid i'r sgôr, rhaid i'r awdurdod bwyd ddyroddi'r sgôr ddiwygiedig i'r gweithredwr cyn pen 14 o ddiwrnodau. Fel arall, pan nad oes sgôr ddiwygiedig i'w dyroddi, rhaid hysbysu'r gweithredwr cyn pen 14 o ddiwrnodau ar ôl i'r arolygiad gael ei gwblhau.

**Cymal 13 – Dyletswyddau’r Asiantaeth Safonau Bwyd**
Mae'r cymal hwn yn nodi dyletswyddau’r ASB mewn perthynas â'r cynllun sgorio hylendid bwyd.

**Cymal 14 – Pwerau a chyfrifoldebau eraill awdurdodau bwyd**
Mae'r cymal hwn yn darparu bod yn rhaid i awdurdod bwyd, pan fydd yn cofrestru neu'n cael cais am gymeradwyaeth gan sefydliad busnes bwyd newydd, anfon gwybodaeth (sydd i'w rhagnodi gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau) at y gweithredwr cyn pen 14 o ddiwrnodau.

**Cymal 15 – Cyfrifoldebau eraill gweithredwyr sefydliadau busnes bwyd**
Mae'r cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwr sefydliad busnes bwyd ddarparu gwybodaeth a phob cymorth rhesymol i'r awdurdod bwyd i'w alluogi i lunio sgôr hylendid bwyd ar gyfer y sefydliad ac arfer ei swyddogaethau eraill o dan y ddeddfwriaeth.

**Cymal 16 – Pŵer mynediad**
Mae'r cymal hwn yn darparu i swyddog awdurdodedig i awdurdod bwyd, ar ôl iddo ddangos awdurdod ysgrifenedig, bŵer i fynd i mewn i sefydliad busnes bwyd at ddibenion penodedig sy'n ymwneud â'r Bil.

**Cymal 17 - Rhwystro swyddogion awdurdodedig**

**Cymal 18 - Troseddau gan gyrff corfforaethol**
Mae'r cymal hwn yn darparu y bydd cyfarwyddwr, rheolwr neu ysgrifennydd i gorff corfforaethol (megis cwmni, neu unrhyw gorff arall a gorfforir drwy statud) sy'n cyflawni trosedd o dan y Bil hwn hefyd yn euog o drosedd mewn amgylchiadau pan geir eu bod yn bersonol feius.

**Cymal 19 – Cosbau**
Mae'r cymal hwn yn darparu bod troseddau o dan y Bil hwn yn rhai y gellir eu rhoi ar brawf yn y Llys Ynadon a'u cosbi drwy ddirwy heb fod yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol (£1,000 ar hyn o bryd).

**Cymal 20 – Cosbau penodedig**
Mae'r cymal hwn yn galluogi swyddog awdurdodedig i awdurdod bwyd i ddyroddi hysbysiad cosb benodedig (HCB) i berson y mae ganddo reswm i gredu ei fod wedi cyflawni trosedd o dan y Bil. Caiff swyddog awdurdodedig gynnig cyfle i'r person hwnnw fodloni unrhyw atebolrwydd i gollfarn am y drosedd drwy dalu cosb benodedig. Os na thelir y gosb benodedig, bydd yr awdurdod bwyd yn cadw'r pŵer i erlyn.

**Cymal 22 – Canllawiau**
Mae'r cymal hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau i awdurdodau bwyd mewn perthynas ag arfer eu swyddogaethau o dan y Bil. Rhaid i'r awdurdod bwyd roi sylw i'r canllawiau hyn.

**Cymal 24 – Rheoliadau**
Mae'r cymal hwn yn darparu trefniadau cyffredinol ar gyfer gwneud gorchmynion a rheoliadau o dan y Bil hwn.

**Atodlen 1– Hysbysiadau cosb benodedig**
Mae Rhan 1 o Atodlen 1 yn nodi'r weithdrefn ar gyfer hysbysiadau cosb benodedig a lefel y cosbau penodedig sy'n daladwy mewn cysylltiad â throsedd o dan y Bil. Mae paragraffau 1 a 2 yn darparu y dylai'r HCB fod yn £200 a'i fod i'w dalu mewn 28 o ddiwrnodau, gyda chosb ostyngol o £150 os

telir yr HCB o fewn 14 o ddiwrnodau. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i ragnodi swm gwahanol am y gosb neu'r gosb ostyngol.

Mae Rhan 2 o Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â ffurf a chynnwys hysbysiadau cosb benodedig.

### *4.2. Amserlen*

Nid oes unrhyw ofynion penodol y dylid pasio'r Bil o fewn cyfnod penodol. Os caiff y Bil ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, dyma'r amserlen arfaethedig ar gyfer rhoi'r ddeddfwriaeth newydd ar waith:

- Disgwylir cael Cydsyniad Brenhinol ym mis Mawrth 2013.
- Mae'r Llywodraeth yn disgwyl y bydd y cynllun statudol newydd yn dod i rym ym mis Tachwedd 2013.
- Bydd canllawiau'n cael eu datblygu a'u cyhoeddi i gyd-fynd â'r adeg y bydd y cynllun yn dod i rym.

## 5. Ymateb i'r Bil

Gwnaeth Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol ddatganiad deddfwriaethol i'r Cyfarfod Llawn ar 29 Mai 2012, pryd y dywedodd:

> Er mai fy mhrif amcan yw darparu gwybodaeth am safonau hylendid i ddefnyddwyr, rwy'n bwriadu i'r Bil fod yn deg i fusnesau bwyd. Er y bydd yn ofynnol iddynt arddangos eu sgôr hylendid bwyd, mae'r Bil yn cynnig yr hawl i weithredwyr busnes bwyd apelio yn erbyn sgôr y sefydliad a hefyd yr hawl i wneud sylwadau arno. Bydd y sylwadau hyn yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd i ddefnyddwyr gael eu gweld.[17]

Wrth orffen, dyweddodd:

> Credaf y bydd Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) yn cyflwyno mesur iechyd cyhoeddus syml ond effeithiol a fydd yn rhoi grym i ddefnyddwyr ac yn helpu i wella safonau hylendid bwyd. Edrychaf ymlaen at weithio gydag Aelodau'r Cynulliad ac eraill sydd â diddordeb yn y cynllun sgôr hylendid bwyd yn ystod y broses o graffu ar y Bil.
> [18]

Er ei fod yn croesawu'r Bil, rhybuddiodd Darren Millar AC, llefarydd y Ceidwadwyr, am fannau gwan posibl yn y ddeddfwriaeth:

> Mae nifer o faterion yr wyf am eu codi gyda chi, Weinidog. Mae angen sicrhau bod cysondeb yn y ffordd y mae'r system sgorio hylendid yn gweithio ledled Cymru er mwyn sicrhau os yw rhywun yn cael sgôr o 4 neu 5 yng Nghaerdydd, bod y sgôr hwnnw'n cael ei roi yn yr un

[17] Cofnod y Trafodion, 29 Mai 2012 [fel ar 31 Mai 2012]
[18] Cofnod y Trafodion, 29 Mai 2012 [fel ar 31 Mai 2012]

ffordd ag y byddai'n cael ei roi i fusnes yng Nghonwy neu yn rhywle arall. Mae angen hyder y bydd y gyfundrefn reoleiddio yn cael ei gweithredu mewn ffordd deg a chyson. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddweud wrthym, yn y cyfnod cymharol gynnar hwn, pa waith yr ydych wedi ei wneud gyda'ch swyddogion i sicrhau bod hynny'n digwydd.

Croesawaf y ffaith eich bod wedi ceisio cynnwys yr holl fusnesau sy'n ymwneud â bwyd, ond mae'n bosibl bod nifer o fusnesau y mae pobl yn prynu eu bwyd ganddynt yng Nghymru wedi'u lleoli y tu allan i Gymru. Pa gamau y gallwch eu cymryd i ddiogelu pobl Cymru rhag safonau hylendid bwyd gwael mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig neu dramor? Maes arall y mae angen rhoi ystyriaeth iddo yw'r farchnad bwyd tecawê yng Nghymru. Mae nifer o siopau tecawê yn cynnig gwasanaethau cludo bwyd ac ni fydd yn hawdd i ddefnyddwyr gael mynediad at y sgôr hylendid bwyd os ydynt yn archebu bwyd dros y ffôn. Tybed a ddylid cael rhyw fath o system i ddatgelu'r wybodaeth i ddefnyddwyr pan fyddant yn archebu bwyd gan siopau tecawê dros y ffôn.[19]

Roedd Elin Jones AC, llefarydd Plaid Cymru, hefyd yn cefnogi amcanion y Bil, ond fel Darren Millar, nododd feysydd lle y gallai fod angen rhagor o egurder arnynt:

Mae tri maes penodol rwyf eisiau gofyn cwestiynau amdanynt. Yn gyntaf, mae'r sgôr o ddim i chwech yn arwydd o hylendid, ond mae'n fesur digon amrwd ynddo'i hun, a thu ôl i bob sgôr mae gan bob sefydliad adroddiad hylendid wedi ei baratoi gan swyddogion yr awdurdod lleol, sy'n rhoi cyd-destun a rhesymau dros y sgôr. Ar hyn o bryd, er mwyn gweld yr adroddiad hwnnw, mae'n rhaid gwneud cais rhyddid gwybodaeth i'r awdurdod lleol, a chredaf fod hynny'n annigonol yn y tymor canol i dymor hir. Felly, a wnaiff y Gweinidog, wrth i'r ddeddfwriaeth hon gael ei chyflwyno, hefyd edrych ar ffordd o osod yr adroddiadau hynny ar y we, yn gyhoeddus, fel eu bod ar gael i'r cyhoedd?

Yn ail, mae bwriad yn y ddeddfwriaeth i osod sticer gyda'r sgôr mewn man cyhoeddus yn y sefydliad. Yn fy marn i, dylid ystyried rhoi un sticer y tu allan i'r sefydliad ac un sticer y tu mewn i'r sefydliad. Rhannaf gonsýrn Darren Millar ynglŷn â sefydliadau takeaway. Mae'r Gweinidog wedi ateb y pryder hwnnw'n rhannol, ond nid yw llawer o bobl sy'n prynu takeaway yn mynd yn agos at y sefydlaid i allu gweld y sgôr—yn aml, maent yn dibynnu ar fwydlenni sy'n cael eu dosbarthu o ddrws i ddrws. Un opsiwn yw ei gwneud yn orfodol i'r sgôr ymddangos ar y bwydlenni hynny. Mae hwnnw'n fater rwyf am iddo gael ei ystyried wrth inni graffu ar y ddeddfwriaeth.[20]

Lleisiodd Aled Roberts AC gefnogaeth grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol i'r Bil a nododd fod "cryn dipyn o welliannau wedi cael eu cyflwyno o ganlyniad i'r cyfnod ymgynghori. Dylai hynny gael ei gydnabod fel un o gryfderau'r Bil hwn." Dywedodd hefyd:

Fodd bynnag, mae materion yn codi o ran cyfleusterau defnydd deuol, yn enwedig adeiladau fel canolfannau cymunedol, lle na fydd canolfan yn ymwneud â pharatoi bwyd, ond efallai y bydd yn cael ei defnyddio gan nifer o sefydliadau. Mae peth pryder, yn ôl fy mhrofiad yn

---

[19] Ibid.
[20] Ibid.

Wrecsam, ynghylch cryfder rheoliadau o dan rai amgylchiadau, er enghraifft pan fydd grŵp plant bach yn defnyddio canolfan gymunedol cyn i glwb cinio wneud hynny. Yn ôl a ddeallaf, o dan y rheoliadau cyfredol byddai angen i'r ddau ddarparwr hynny gael eu cofrestru at y dibenion hynny. Fodd bynnag, mae cwestiwn o ran sut y mae'r rheoliadau'n datblygu o safbwynt arddangos tystysgrifau gan nifer o sefydliadau gwirfoddol sy'n defnyddio'r un adeilad.[21]

Dywedodd Mick Antoniw AC:

> Mae gennyf bryderon ynghylch dau faes a fydd yn sicr o godi yn ystod y broses graffu. Yn ystod y briff technegol defnyddiol iawn i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y mater hwn, y mater cyntaf oedd yn peri pryder i mi oedd sefydliadau sydd â sgôr 0, 1 a 2. Yr ateb a roddwyd ar y pryd oedd mai'r rheini oedd y sefydliadau a fyddai wedi mynd yn groes i gyfraith diogelwch bwyd yn sylweddol ac nad yw'r gyfraith yn caniatáu iddynt gael eu cau oni bai fod risg ar fin digwydd i iechyd. Rwy'n teimlo bod hynny'n wrthddywediad—y gallwch fynd yn groes i gyfraith diogelwch bwyd yn sylweddol a bod cwestiwn ynghylch a yw hynny'n golygu bod risg ar fin digwydd i iechyd. Felly, rwy'n pryderu y gallwn fod yn hysbysebu system sy'n dweud eich bod yn peryglu eich bywyd os ydych yn bwyta rhywbeth mewn sefydliad penodol, ond bod hynny'n iawn gennym ni. Mae angen inni fod yn wyliadwrus ynghylch hynny.
>
> Mae'r pryder mwyaf sydd gennyf, fodd bynnag, yn ymwneud â faniau symudol trawsffiniol. Mae faniau symudol wedi eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth, a bydd busnesau Cymru yn gorfod cydymffurfio a chofrestru. Pan godais y mater o ran beth sy'n digwydd pan mae faniau'n dod dros y ffin, yr ateb a roddwyd mewn perthynas â'r agwedd orfodol oedd na all y gyfraith gael ei gorfodi yng Nghymru ar rywun sy'n masnachu o Loegr ac yn croesi'r ffin. Mae'n rhaid bod hynny'n anghywir. Os oes busnes yn Lloegr sydd am fasnachu yng Nghymru, dylai'r busnes hwnnw gael ei gwmpasu gan reoliadau safonau bwyd sydd yr un mor berthnasol i fusnesau Cymru. Y dewis arall yw bod busnesau Cymru sy'n cydymffurfio ac yn talu'r ffioedd o dan anfantais o'u cymharu â'r rhai ar draws y ffin nad oes rhaid iddynt dalu i gofrestru ac nad oes rhaid iddynt gynnal y safonau ac yn y blaen. Nid wyf yn awgrymu bod dwsinau a dwsinau o faniau symudol yn dod draw gyda'r bwriad o wenwyno bwyd poblogaeth Cymru, ond rwy'n meddwl eich bod yn deall y pwynt am annhegwch y system. Nid oeddwn yn derbyn ar y pryd na ellir gwneud hynny ac y dylem aros nes bydd Lloegr yn penderfynu ei fod yn syniad da ac yn gwneud yr un peth. Mae'n rhaid rhoi sylw i'r mater hwn er mwyn sicrhau tegwch i'r rhai sy'n masnachu ar ochr Cymru i'r ffin. Ceir llawer o ddigwyddiadau cyhoeddus mawr, gwyddom fod llawer o gyswllt trawsffiniol ac, os ydym yn mynd i ddweud bod rhai safonau yr ydym yn mynd i'w gosod ar gyfer busnesau Cymru, dylai rhywun sydd am ddod i Gymru i fasnachu gadw at y safonau hynny yn yr un modd.[22]

Mae Llais Defnyddwyr Cymru wedi bod yn ymgyrchu ers tair blynedd i wella safonau hylendid bwyd, a chynorthwyodd Llywodraeth Cymru yn yr ymgynghoriad i'r Bil Drafft. Felly, mae'n gefnogol iawn o'r Bil. Dywedodd Liz Withers, Pennaeth Polisi Llais Defnyddwyr Cymru:

---

[21] Cofnod y Trafodion, 29 Mai 2012 [fel ar 31 Mai 2012]
[22] Cofnod y Trafodion, 29 Mai 2012 [fel ar 31 Mai 2012]

Rydym yn croesawu'r bil hwn yn fawr. Rydym wedi ymgyrchu dros ei gwneud yn orfodol i fusnesau arddangos eu sgoriau hylendid bwyd er mwyn darparu gwybodaeth well i ddefnyddwyr a'u helpu i wneud penderfyniadau mwy gwybodus am ble i fwyta. Mae'r cynigion hyn yn gyfle go iawn i wella safonau mewn mannau sy'n gweini bwyd ac i leihau salwch a achosir gan fwyd.

Mae'r mwyafrif llethol o bobl yng Nghymru wedi dweud wrthym eu bod am weld system syml a thryloyw ar gyfer safonau hylendid bwyd. Er mwyn i hynny fod yn effeithiol bydd yn rhaid i arddangos sgoriau hylendid bwyd fod yn orfodol. Dan y cynllun gwirfoddol presennol, mae busnesau sydd wedi cael sgoriau gwael yn eu cuddio – gan gadw cwsmeriaid yn y tywyllwch. Trwy eu gorfodi i'w dangos, bydd defnyddwyr yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt, a'r gallu i wneud dewisiadau mwy diogel am ble i fwyta.

Mae cynlluniau gorfodol tebyg yn Efrog Newydd a Toronto wedi bod yn llwyddiannus ac wedi helpu i wella safonau. Yn Los Angeles ceir tystiolaeth fod cyflwyno cynllun gorfodol wedi arwain at 20 y cant o ostyngiad yn nifer y bobl sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty gyda salwch sydd wedi'i achosi gan fwyd.[23]

[23] Llais Defnyddwyr Cymru, Gall y Bil hylendid bwyd newydd ddangos Cymru yn arwain y ffordd, datganiad i'r wasg, 28 Mai 2012 [accessed 31 May 2012]